



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Cyllideb Derfynol 2023-24

Cyllideb mewn Cyfnod Anodd

Chwefror 2023

llyw.cymru

Cynnwys

Pennod 1: Cyflwyniad	1
Pennod 2: Newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol	3
Pennod 3: Dyraniadau Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24	8
Atodiad A: Diweddariad ar Chwyddiant	10
Atodiad B: Rhestr o Dermau Ariannol	11

Pennod 1: Cyflwyniad

Trosolwg

1.01 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2023-24, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r Gyllideb Derfynol yn nodi cynlluniau gwario refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 a chynigion ar gyfer dyraniadau cyfalaf Trafodiadau Ariannol (FT), ynghyd â chynlluniau dangosol ar gyfer 2024-25. Mae'r Gyllideb Derfynol yn adlewyrchu newidiadau i'r Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2022.

Craffu ar y Gyllideb Ddrafft

1.02 Cafodd amseriad digwyddiad cyllidol Hydref Llywodraeth y DU effaith unwaith eto ar gyhoeddi'r Gyllideb eleni. Gyda chytundeb Pwyllgor Busnes a Phwyllgor Cyllid y Senedd, rhoddodd Llywodraeth Cymru drefniadau eithriadol ar waith mewn perthynas â phroses y Gyllideb ar gyfer eleni. Arweiniodd hyn at gyhoeddi'r cynlluniau gwario refeniw strategol; cynigion trethu a benthyca; a chynigion portffolio manwl y gyllideb. Cyhoeddwyd y rhain i gyd ar 13 Rhagfyr.

1.03 Roedd y gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 yn cwmpasu elfennau megis ffynonellau ein cyllid, gan gynnwys pwerau benthyca a threthu, yn ogystal ag ystyried yn fanwl cynlluniau gwario adrannol gan bwyllgorau polisi'r Senedd. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgorau eraill y Senedd eu hadroddiadau ar y Gyllideb Ddrafft ar 6 Chwefror, ychydig cyn y ddadl ar y Gyllideb Ddrafft yn y Senedd, a gynhaliwyd ar 7 Chwefror.

1.04 Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu cyfraniad pwysig y Pwyllgor Cyllid a'r pwyllgorau polisi wrth graffu'n adeiladol ar gynigion y Gyllideb. Rydym wedi cnoi cil ar yr argymhellion a wnaed gan Bwyllgorau'r Senedd a byddwn yn ymateb yn ffurfiol i'r rhain cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol ar 7 Mawrth.

Newidiadau i Gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

1.05 Gan fod y newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol yn adeiladu ar y mesurau presennol a chan fod asesiad o'r effeithiau hyn eisoes wedi'i ddarparu, ni ddarperir unrhyw fanylion pellach fel rhan o'r Gyllideb Derfynol hon. O gofio natur effeithiau esblygol chwyddiant, er hynny, mae'r Prif Economegydd wedi cyhoeddi diweddariad ar y rhagolygon chwyddiant diweddaraf a'u heffeithiau. Mae'r diweddariad hwn i'w weld yn Atodiad A.

1.06 Wrth gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i wneud dyraniadau o gyfalaf Trafodiadau Ariannol (FT) yn y Gyllideb Derfynol. Er mwyn manteisio ymhellach ar ein hysgogiadau cyfalaf, mae'r Gyllideb Derfynol hon yn cynnwys dros £160m o fuddsoddiad cyfalaf FT ychwanegol dros gyfnod 2023-24 a 2024-25 a cheir manylion pellach ym Mhennod 2.

1.07 Mae'r Gyllideb Derfynol hon hefyd yn cynnwys sawl newid gweinyddol a chyfrifyddu. Yn ogystal, mae'n adlewyrchu rhagolygon refeniw diweddaraidd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, fel y nodir yn y diweddariad i Ragolygon Trethi Cymru. Mae diwygiad hefyd i'r addasiad i'r grant bloc yn gysylltiedig â Chyfraddau Treth Incwm Cymru, gan effeithio ar y DEL Adnoddau Cyllidol yn 2023-24 a 2024-25.

1.08 Mae Atodlen 7 o Gynnig y Gyllideb Flynyddol ar gyfer y Gyllideb Derfynol hon yn nodi 'Taliadau o Adrannau Eraill o'r Llywodraeth' sy'n cynnwys y cyfraniadau Yswiriant Gwladol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cael. Nid yw'r cyfraniadau ar gyfer 2023-24 wedi'u cadarnhau eto felly y ffigur yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol yw'r swm yn Ail Gyllideb Atodol 2022-23. Caiff y ffigur hwn ei diweddarau yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2023-24.

Pennod 2: Newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol

2.01 Amlinellir y newidiadau a wnaed rhwng cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol yn y bennod hon.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol (FT)

2.02 Mae cyfalaf Trafodiadau Ariannol (FT) yn ffurf benodol o gyfalaf a ddarperir gan Lywodraeth y DU gydag amodau ar ei ddefnydd. Mae angen ad-dalu cyfran o'r cyllid hwn i Lywodraeth y DU.

2.03 Mae'r cyfyngiadau ynghylch defnyddio cyfalaf FT, yr amserlenni ar gyfer datblygu cynigion a chyhoeddi Datganiad Hydref y DU yn hwyr wedi cyfyngu ar ein gallu i wneud dyraniadau FT newydd fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft. Rydym bellach mewn sefyllfa i wneud hynny yn y Gyllideb Derfynol.

2.04 Ochr yn ochr â diweddarau proffiliau ad-dalu ein portffolio FT presennol, bydd y dyraniadau FT gwerth £164m yr ydym yn eu gwneud yn y Gyllideb Derfynol hon dros 2023-24 a 2024-25 yn cefnogi ymhellach y gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau sydd yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 10 mlynedd a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ym mis Rhagfyr 2021. Bydd y £164m hwn yn adeiladu ar ein portffolio buddsoddi FT presennol ehangach o £1.8bn. Yn ogystal, wrth ystyried dyraniadau, rydym wedi blaenoriaethu cynigion sy'n cydategu'r blaenoriaethau a nodir yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24.

2.05 Amlinellir manylion y dyraniadau isod:

- Mae Cymorth i Brynu - Cymru wedi helpu miloedd o bobl i wireddu eu breuddwyd o brynu tŷ ers iddo gael ei lansio ym mis Ionawr 2014, gyda mwy na 13,400 o gartrefi yn cael eu darparu drwy'r cynllun, ochr yn ochr â sbarduno newidiadau yn y diwydiant tai. Rydym yn dyrannu £63m i ymestyn y cynllun tan fis Mawrth 2025, gan addasu'r cynllun i ystyried newidiadau yn y farchnad dai, effaith yr hinsawdd economaidd bresennol ar brynwyr tai posibl ac ar y diwydiant tai.
- Bydd bron i £100 miliwn yn cael ei ddyrannu tuag at fesurau i helpu pobl i aros yn eu cartrefi a hefyd i gefnogi tai cymdeithasol sy'n ceisio helpu pobl i osgoi digartrefedd, atal adfeddu a chreu mwy o dai cymdeithasol.
- Er mwyn parhau i helpu i wella ein hystad addysg, rydym yn darparu £2.4m pellach yn ein rhaglen Model Buddsoddi Cydfuddiannol: Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae hwn yn fuddsoddiad ecwiti sydd â'r prif amcan o hwyluso cyfleusterau newydd ychwanegol uwchlaw'r hyn y gellir eu cefnogi drwy Gyllideb Gyfalaf Addysg Llywodraeth Cymru.

2.06 Yn ogystal â'r dyraniadau uchod, mae nifer o gynigion - yn y MEGs Newid Hinsawdd a'r Economi – sydd â photensial cryf y mae angen ei ddatblygu ymhellach. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar fyrder. Mae dyraniadau dros dro wedi'u gwneud fel bod modd bwrw ymlaen â'r cynigion hyn.

Newidiadau Gweinyddol

2.07 Rydym yn gwneud nifer o newidiadau gweinyddol rhwng Prif Grwpiau Gwariant (MEGs) gan ymateb i ystod o faterion sy'n codi ers i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi

Trosglwyddo cyfrifoldebau o'r MEG Newid Hinsawdd i MEG yr Economi

2.08 Mae angen gwneud newidiadau i'r gyllideb yn sgil trosglwyddo'r cyfrifoldebau Gweinidogol a bennwyd gan y Prif Weinidog ar 13 Medi. Mae'r trosglwyddiadau hyn gwneud cyfanswm o £20.130m o adnoddau a £20m o gyfalaf, ac yn cynnwys:

- Trosglwyddiad o £4.794m (adnodd) o BEL 3759 ar gyfer y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
- Trosglwyddiad o £11.5m (adnodd) o BEL 3822 ar gyfer Cydgrynhoi Band Eang yn y Sector Cyhoeddus
- Bydd trosglwyddiad o £1.527m (adnodd) a £20m (cyfalaf) o BEL 3860 ar gyfer Gweithrediadau Seilwaith TGCh. Mae'r dyraniadau'n cynnwys adfachiad disgwylidig o £46.5m yn ein rhaglenni band eang a fydd yn cael ei ddefnyddio drwy gronfeydd wrth gefn dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau darpariaeth gwasanaethau TGCh yn y dyfodol.
- Trosglwyddiad o £2.309m (adnodd anghyllidol) o BEL 3860 ar gyfer Gweithrediadau Seilwaith TGCh

Trosglwyddo cyfrifoldebau o'r MEG Newid Hinsawdd i'r MEG Materion Gwledig

2.09 Mae angen gwneud newidiadau i'r gyllideb yn sgil trosglwyddo'r cyfrifoldebau Gweinidogol a bennwyd gan y Prif Weinidog ar 13 Medi. Mae'r trosglwyddiadau hyn yn gwneud cyfanswm o £7.908m o adnoddau a £18.7m o gyfalaf, ac yn cynnwys:

- Trosglwyddiad o £3.4m (adnodd) a £16.7m (cyfalaf) o BEL 2820 Lleoedd Lleol ar gyfer Natur i'r MEG Materion Gwledig (mae hyn yn cynnwys trosglwyddo £900,000 a £4.2m (cyfalaf) o'r BEL Bioamrywiaeth a'r BEL Coedwigaeth (yn y drefn honno).
- Trosglwyddiad o £1.5m (adnodd) o BEL 2195 Cynllun Cymunedau y Dreth Gwaredu Tirlenwi
- Trosglwyddiad o £3.008m (adnodd) a £2m (cyfalaf) o BEL 2832 ar gyfer Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant.

2.10 Mae tablau Cyllideb Ddrafft 2023-24 wedi'u hailddatgan a byddant yn cael eu defnyddio fel balansau agoriadol ar gyfer tablau'r Gyllideb Derfynol, yn unol â'r balansau cau ar gyfer tablau Ail Gyllideb Atodol 2022-23.

Trosglwyddiadau MEG i MEG

2.11 Bu sawl trosglwyddiad o adnoddau cyllidol rhwng portffolios Gweinidogol yn y Gyllideb Derfynol hon. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Trosglwyddiad o £621,000 (adnoddau cyllidol) o MEGs amrywiol i ddarparu cyllid i'r BEL Costau Staff yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu tuag at y costau parhaus i gefnogi gweithrediad Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol, sy'n darparu rhaglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd Cyfraith Cymru.
- Trosglwyddiad o £350,000 (adnoddau cyllidol) o'r BEL Trawsnewid a Deddfwriaeth yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol i'r BEL Argyfyngau Sifil Posibl a Diogelwch Gwladol yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i gefnogi'r ymatebion gweithredol i argyfyngau sifil posibl a chynllunio at argyfyngau
- Trosglwyddiad o £100,000 (adnoddau cyllidol) o'r BEL Gweinyddu cyffredinol yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r BEL Partneriaethau Cymdeithasol yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol i alinio'r gyllideb Partneriaeth Gymdeithasol yn dilyn yr ailstrwythuro sefydliadol.
- Trosglwyddiad o £1.75m (adnoddau) o'r BEL Cyflogadwyedd gan Gynnwys y Warant i Bobl Ifanc yn MEG yr Economi i'r BEL Darpariaeth ôl-16 yn MEG y Gymraeg ac Addysg i gefnogi ariannu Cyfrifon Dysgu Personol.
- Trosglwyddiad o £2m (adnoddau) o'r BEL Ymagwedd Ysgol Gyfan at Lesiant yn MEG y Gymraeg ac Addysg i'r BEL Iechyd Meddwl yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio i iechyd meddwl plant a phobl ifanc (y model Noddfa).
- Trosglwyddiad o £3m (cyfalaf) o'r BEL Seilwaith Addysg yn MEG y Gymraeg ac Addysg i'r BEL Iechyd Meddwl yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio i iechyd meddwl plant a phobl ifanc (y model Noddfa).
- Trosglwyddiad o £4.5m (adnoddau) o'r BEL Cefnogi Safonau Ysgolion yn MEG y Gymraeg ac Addysg i'r BEL Estyn yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol i gefnogi Estyn. Mae hyn yn cynnwys £1.04m i greu capasiti i hwyluso cwblhau holl arolygiadau Unedau Cyfeirio Disgyblion (PRU) yn y cylch presennol.
- Trosglwyddiad o £470,000 (adnoddau cyllidol) o BEL Dyraniadau Craidd y GIG yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i BEL Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol i alluogi Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i gryfhau ei gweithgareddau arolygu a sicrwydd.

- Trosglwyddiad o £161,000 (adnoddau cyllidol) o BEL Dyraniadau Craidd y GIG yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i BEL Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol i gefnogi Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.
- Trosglwyddiad o £825,000 (adnoddau cyllidol) o BEL Dyraniadau Craidd y GIG yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i BEL Arolygiaeth Gofal Cymru yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol i gefnogi Arolygiaeth Gofal Cymru.
- Trosglwyddiad o £5.872m (adnodd cyllidol) o BEL y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol i'r BEL Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol i'r MEG Cyllid a Llywodraeth Leol mewn perthynas â cyfraniadau cyflogwyr i bensiynau diffoddwyr tân.
- Trosglwyddiad o £694,000 (adnodd) o'r BEL Diogelu'r Amgylchedd yn y MEG Newid Hinsawdd i'r MEG Materion Gwledig ar gyfer cyllidebau polisi Sŵn a pholisi Cemegol yn dilyn trosglwyddo cyfrifoldebau Gweinidogol.
- Trosglwyddiad o £886,000 (adnodd) o'r BEL Bioamrywiaeth yn y MEG Newid Hinsawdd i'r MEG Materion Gwledig ar gyfer Iechyd Planhigion yn dilyn trosglwyddo cyfrifoldebau Gweinidogol.
- Trosglwyddiad o £1.347m (adnodd) a £5.825m (cyfalaf) o'r BEL Tirweddau a Hamdden Awyr Agored yn y MEG Newid Hinsawdd i'r MEG Materion Gwledig ar gyfer Mynediad a Mannau Cymunedol yn dilyn trosglwyddo cyfrifoldebau.
- Trosglwyddiad o £45,000 (adnodd) o'r BEL Llywodraethu Amgylcheddol yn y MEG Materion Gwledig i'r MEG Newid Hinsawdd ar gyfer Llywodraethu Amgylcheddol

2.12 Yn ogystal â'r trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion a nodir, mae nifer o drosglwyddiadau rhwng BELs o fewn yr un portffolios a gynhwysir yn y Tablau BEL cyhoeddus. Mae'r rhain yn gyffredinol yn weinyddol eu natur ac nid oes ganddynt unrhyw effaith net ar gyfansymiau'r Prif Grwpiau Gwariant unigol.

Trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt

2.13 Bu mân ddyraniad o gyllid adnoddau o gronfeydd wrth gefn yn gysylltiedig â'r cyhoeddiad ar gydraddoldeb tâl a wnaed ym mis Gorffennaf 2022 ar gyfer MEGs yr Economi, Cyfiawnder Cymdeithasol, y Gymraeg ac Addysg ac Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau y bydd gweithwyr yn y Cyrff Hyd Braich hyn yn cael eu talu yr un peth â'r isafswm cyflog ar gyfer y radd gyfatebol yn Llywodraeth Cymru.

- Trosglwyddiad o £575,000 (adnoddau) o gronfeydd wrth gefn ar gyfer MEG yr Economi.
- Trosglwyddiad o £40,000 (adnoddau) o gronfeydd wrth gefn ar gyfer y MEG Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol.
- Trosglwyddiad o £32,000 (adnoddau) o gronfeydd wrth gefn ar gyfer MEG Cyfiawnder Cymdeithasol.
- Trosglwyddiad o £3,000 (adnoddau) o gronfeydd wrth gefn ar gyfer MEG y Gymraeg ac Addysg.

2.14 Mae ddyraniad hefyd o gronfeydd wrth gefn o £636,000 (adnoddau) i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Mae hyn yn adlewyrchu trosglwyddiad a wnaed fel newid Peirianwaith y Llywodraeth (MoG) yn 2022-23, o'r Weinyddiaeth Amddiffyn, ar gyfer Seibergadernid. Mae hyn yn golygu y caiff y cyllid hwn ei seilio ar linell sylfaen yn Llywodraeth Cymru ar gyfer blynyddoedd ariannol 23/24 a 24/25.

Pennod 3: Dyraniadau Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

- 3.01** Adlewyrchir y newidiadau a ddisgrifir ym mhennod 2 yn y cynlluniau gwario diwygiedig a nodir yn y Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario a gyhoeddir ar [dudalen we](#) Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2023-24.
- 3.02** Nodir y newidiadau manwl i gynigion y Gyllideb rhwng cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol yn 2023-24 yn [nhablau BEL](#) Cyllideb Derfynol 2023-24, a gyhoeddir ynghyd â'r Nodyn Esboniadol hwn.
- 3.03** O ran y cyfalaf Trafodiadau Ariannol (FT), ochr yn ochr â dyraniadau ychwanegol o gyllid, mae'r Gyllideb Derfynol hon yn cynnwys manylion wedi'u diweddarau ynghylch ad-dalu benthyciadau FT presennol a ddangosir fel gwerthoedd negyddol o fewn y tablau. Cafodd ad-daliadau eu pennu yn sylweddol fel rhan o Gyllideb 2022-23. Rhaid i elfen o gyllid cyfalaf FT gael ei dychwelyd a'i had-dalu i Lywodraeth y DU; mae ad-daliadau yn daliadau a ddychwelwyd ar fuddsoddiadau blaenorol ac nid oes ganddynt unrhyw effaith ar y dyraniadau presennol.
- 3.04** Mae'r holl dablau a oedd wedi'u cynnwys ym Mhenodau 3 a 4 o Nodiadau Esboniadol Cyllideb Derfynol 2022-23, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, ynghyd â'r tablau a ddangosir yn atodiadau A a B o'r ddogfen honno, bellach i'w gweld yn y llyfr gwaith ODS (Open Document Spreadsheet) dan y pennawd Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario ar [dudalen we](#) Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru.
- 3.05** Mae cyhoeddi'r tablau mewn un ddogfen ar ffurf ODS yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella'r ffordd y cyflwynir data'r Gyllideb a'i gwneud yn fwy agored, ac mae'n parhau'r arfer a fabwysiadwyd ar gyfer Cyllideb Ddrafft 20
- 3.06** Mae'r tablau a gynhwysir yn y [llyfr gwaith ODS](#) yn cynnwys:
- Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru (Tabl 3.1)
 - Dyrannu Cyllideb Cymru (Tabl 3.2)
 - Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru 2023-24 (Tabl 3.3)
 - Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru 2024-25 (Tabl 3.4)
 - Newidiadau i Ddyraniadau Adnoddau MEG Llywodraeth Cymru (Tabl 3.5)
 - Newidiadau i Ddyraniadau Cyfalaf MEG Llywodraeth Cymru (Tabl 3.6)
 - Newidiadau i Ddyraniadau MEG AME Llywodraeth Cymru (Tabl 3.7)
 - Benthycia uniongyrchol at Ddibenion Cyfalaf
 - Benthycia uniongyrchol at Ddibenion Cyfalaf, amserlen ad-dalu 2023-24
 - Benthycia uniongyrchol at Ddibenion Cyfalaf, amserlen ad-dalu 2024-25
 - Mapio Dyraniadau'r Gyllideb Gyfalaf i Feysydd Buddsoddi a Sectorau
 - Cysoni'r Gyllideb Weinyddol a Dyraniad yr Adnoddau yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol
 - Atodiadau ailddatgan

- Cyfres o dablau sy'n dangos newidiadau o flwyddyn i flwyddyn:
 - Cyfanswm – Newid Canrannol o Flwyddyn i Flwyddyn
 - Cyfanswm – Newid Canrannol o Flwyddyn i Flwyddyn – Termau Real
 - Adnodd Cyllidol – Newid Canrannol o Flwyddyn i Flwyddyn
 - Adnodd Cyllidol – Newid Canrannol o Flwyddyn i Flwyddyn – Termau Real
 - Adnodd Anghyllidol – Newid Canrannol o Flwyddyn i Flwyddyn
 - Adnodd Anghyllidol – Newid Canrannol o Flwyddyn i Flwyddyn – Termau Real
 - Cyfalaf Cyffredinol – Newid Canrannol o Flwyddyn i Flwyddyn
 - Cyfalaf Cyffredinol – Newid Canrannol o Flwyddyn i Flwyddyn – Termau Real
 - Cyfalaf FT – Newid Canrannol o Flwyddyn i Flwyddyn
 - Cyfalaf FT – Newid Canrannol o Flwyddyn i Flwyddyn – Termau Real
 - AME Adnodd – Newid Canrannol o Flwyddyn i Flwyddyn
 - AME Adnodd – Newid Canrannol o Flwyddyn i Flwyddyn – Termau Real
 - AME Cyfalaf – Newid Canrannol o Flwyddyn i Flwyddyn
 - AME Cyfalaf – Newid Canrannol o Flwyddyn i Flwyddyn – Termau Real

Atodiad A: Diweddariad ar Chwyddiant

1. Yn ei ragolygon diweddaraf ym mis Chwefror 2023, mae Banc Lloegr yn asesu bod chwyddiant wedi cyrraedd ei anterth yn Hydref 2022 ac mae'n disgwyl i chwyddiant ostwng yn ystod 2023-24. Ar ei ragolygon canolog, rhagamceni'r y bydd chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn gostwng i ychydig o dan bedwar y cant erbyn diwedd 2023, gan adlewyrchu'r dirywiad cyflym mewn pwysau prisiau byd-eang a'r gostyngiad yng nghyfraniad prisiau ynni at chwyddiant.
2. Nid yw'r rhagolygon chwyddiant diweddaraf hyn yn newid y darlun cyffredinol a nodir yn y Gyllideb Ddrafft bod cyllideb Llywodraeth Cymru dros dair blynedd y setliad presennol yn werth cryn dipyn yn llai mewn termau real na phan gafodd ei phennu gyntaf ym mis Hydref 2021.
3. Mae ystod eang o ansicrwydd yn gysylltiedig â rhagolygon Banc Lloegr ac, yn ôl y Banc, gallai'r gyfradd chwyddiant ar ddiwedd y flwyddyn fod unrhyw le mewn ystod o agos at sero i dros chwech y cant.
4. Mae effaith chwyddiant ar sefyllfa ariannu Llywodraeth Cymru yn dibynnu nid yn unig ar lefel gyffredinol chwyddiant ond hefyd ar ei gyfansoddiad, gyda chostau cyflogau a chostau mewnbynau amrywiol, gan gynnwys yn arbennig ynni, sy'n codi ar gyfraddau sydd yn aml yn wahanol i'r prif CPI. Er enghraifft, dros y blynyddoedd diwethaf, mae chwyddiant prisiau adeiladu wedi bod yn uwch na chwyddiant CPI. Bydd y cynnydd mewn costau cyflogau - ffactor allweddol - yn dibynnu'n rhannol ar setliadau sy'n dal i gael eu trafod.
5. Nid oes unrhyw ragolygon swyddogol amserol o sut y bydd chwyddiant yn effeithio ar y costau a wynebwr gan Lywodraeth Cymru ac nid oes rheswm dros gredu y bydd lefel yr ansicrwydd yn is na'r hyn sy'n gymwys i chwyddiant CPI yn gyffredinol.
6. I'r graddau y mae chwyddiant yn troi allan yn uwch na'r disgwyl ar y pryd y pennwyd y gyllideb, bydd i hyn oblygiadau ar gyfer lefel yr allbynnau y gellir eu cyflawni; ond bydd natur a graddfa unrhyw effeithiau o'r fath yn dibynnu ar lefel a dosbarthiad anhysbys codiadau cost ar draws y gwahanol gategoriâu o wariant. Bydd yr effeithiau hefyd yn dibynnu ar unrhyw fesurau liniaru y gellir eu rhoi ar waith.
7. Bydd Llywodraeth Cymru yn asesu effaith chwyddiant ar ei sefyllfa ariannu a dyraniadau rhaglenni yn barhaus yn ystod 2023-24.

Atodiad B: Rhestr o Dermau Ariannol

Cam Gweithredu	<i>O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu.</i>
Cwmpasoedd	<i>Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan y Senedd i wario adnoddau arnynt. Caiff disgrifiadau o'r cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau eu cynnwys yng nghynnig y Gyllideb flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant (MEG).</i>
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)	<i>Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlfwyddyn yn yr un ffordd â'r Terfyn Gwariant Adrannol (DEL), ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys Ei Fawrhydi. Mae AME fel rheol yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw; er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr. Caiff gwariant awdurdodau lleol a ariennir gan ardrethi annomestig ei ddangos mewn cyllidebau AME hefyd.</i>
Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)	<i>O fewn pob Cam Gweithredu, dyrennir cyllidebau i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL). Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel BEL ar gael yn: https://llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru</i>
Fformiwla Barnett	<i>Y fformiwla a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU i gyfrifo newidiadau i'r grant bloc a ddyrennir i Lywodraeth Cymru (ac i'r gweinyddiaethau datganoledig eraill). Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr un newidiadau i gyllid y pen o'r boblogaeth a'r hyn a gyhoeddir yn Lloegr ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u datganoli i Gymru. Fel rhan o'r fframwaith cyllidol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn 2016, caiff ffactor sy'n seiliedig ar anghenion ei gymhwyso i ddyraniadau fformiwla Barnett i Gymru. Ar hyn o bryd mae hwn wedi'i osod ar bump y cant yn ychwanegol.</i>
Cynnig y Gyllideb	<i>Y dull a ddefnyddir gan y Senedd i roi awdurdod i Weinidogion Cymru i wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru.</i>
Cyfalaf	<i>Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae cyfran o'r DEL Cyfalaf yn cynnwys cyfalaf Trafodiadau Ariannol.</i>
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)	<i>Y terfyn cyllidebol amlfwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys Ei Fawrhydi. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail amlfwyddyn mewn Adolygiadau o Wariant. Mae gan gyllidebau DEL ac AME Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf ac adnoddau.</i>

Dibrisiant	<i>Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ond eitem DEL adnoddau anghyllidol ydyw.</i>
Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	<i>Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y taliadau a godir yn uniongyrchol mae taliad cydnabyddiaeth y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.</i>
Cyfalaf Trafodiadau Ariannol	<i>Mae cyfalaf trafodiadau ariannol yn rhan o'r setliad DEL cyfalaf, a dim ond at ddibenion benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i drydydd partion y gellir eu defnyddio. Ar y cyfan, rhaid ad-dalu'r cyllid i Drysorlys Ei Mawrhydi</i>
DEL Adnoddau Cyllidol (arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau sydd bron yn arian parod')	<i>Y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Adnoddau Cyllidol sy'n sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Cofnodir gwariant ar sail croniadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau cyfredol a chymorthdaliadau.</i>
Prif Grŵp Gwariant (MEG)	<i>Caiff Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant (MEG). Ceir wyth MEG ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Cyllid a Llywodraeth Leol; Y Gymraeg ac Addysg; Newid Hinsawdd; Yr Economi; Materion Gwledig; Cyfiawnder Cymdeithaso;l a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.</i>
DEL Adnoddau Anghyllidol (arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')	<i>Y gyllideb Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Adnoddau Anghyllidol sy'n sgorio gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas â dibrisiant ac amhariadau benthyciadau i fyfyrwyr. Mae'r DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol.</i>
Derbyniadau	<i>Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.</i>
Cyllidebu adnoddau	<i>Pennir cyllideb Llywodraeth Cymru ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Er enghraifft, mae cyllidebu adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.</i>

Adnoddau (arferid cyfeirio atynt fel 'refeniw')	Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau traul a gwasanaethau.
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	Cyfanswm Rheoli gan Drysorlys Ei Fawrhydi yw hwn sy'n cynnwys cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) ynghyd â Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME).
Cronfa wrth Gefn Cymru	Mae Cronfa wrth Gefn Cymru ar waith ers mis Ebrill 2018 fel arf sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb dros gyfnod o flynyddoedd. Bydd modd i Lywodraeth Cymru ddefnyddio refeniw dros ben o'r trethi datganoledig a'r tanwariant ar y Terfyn Gwariant Adrannol yn y Gronfa wrth Gefn, i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Bydd modd i'r Gronfa ddal hyd at £350m, gyda chyfyngiad defnyddio blynyddol o £125m ar gyfer adnoddau a £50m ar gyfer cyfalaf. Ni fydd cyfyngiad blynyddol ar yr arian a delir i mewn i'r Gronfa.
Cronfa Gyfunol Cymru	Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, yr Archwilydd Cyffredinol, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn unol â phleidlais Senedd y DU.
CNLC	Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.